

Mae rhai grwpiau ieuencid yn mentro i'r byd rhithiol i gyfarfod yn y cyfnod hwn. Mae'n bwysig ein bod yn cadw mewn cysylltiad â'n bobl ifanc a gall hyn ynddo'i hun fod yn ffordd allweddol o gefnogi a diogelu rhai pobl ifanc agored i niwed, yn enwedig mewn cyfnod anodd a heriol fel y pandemig Covid-19. Mae cynhadledd fideo a llwyfannau rhithiol yn ddulliau cyffrous ond mae yna resymau dilys pam ein bod wedi osgoi hyn yn y gorffennol gan gynnwys ein hymwybyddiaeth bod risgiau a heriau ychwanegol wrth wneud hyn mewn ffordd ddiogel a thryloyw. Hefyd y ffaith bod y rhyngwrdd yn gyd-destun lle mae llawer o gam-drin wedi digwydd gan ei fod yn cael ei weld yn anodd ei reoli.

Hyd yn oed ar adegau o argyfwng, mae'n bwysig bod y cyfarfodydd hyn yn gweithredu o fewn ein [polisi a gweithdrefnau diogelu](#) ac yn dilyn rhai egwyddorion diogelu ac arfer da clir. Dylai'r gwaith bob amser fod yn dryloyw ac yn ddiogel, a dylid rhoi ystyriaeth ofalus i ddiogelwch y bobl ifanc ac atebolrwydd a diogelwch y gweithwyr/gwirfoddolwyr.

EGWYDDORION

1. Caniatâd a chysyniad

- ✓ Mae angen sicrhau caniatâd penodol a chysyniad gwybodus* gan riant neu warcheidwad ar gyfer unrhyw waith gyda phlant o dan 18 oed. Peidiwch â chymryd yn ganiataol bod eich ffurflen ganiatâd presennol yn cynnwys gweithgareddau newydd. Peidiwch â dibynnu ar bobl ifanc i gyfathrebu'r hyn sy'n digwydd i'w rhieni.

**e.e. Anfonwch e-bost at rieni/gofalwyr gyda'r dyddiad ac amser y sesiwn rhithiol gan gynnwys pwy fydd yn arwain/ cymryd rhan a'r bwriad a chynnwys yn fras. Crëwch ffurflen ganiatâd newydd neu gofynnwch am ateb e-bost i roi caniatâd a chadwch y negeseuon e-bost hyn mewn ffolder ar wahân. Defnyddiwch gyfeiriad e-bost rhieni/gofalwyr i sicrhau bod nhw'n ymwybodol o'r digwyddiad ac yn gallu gosod mynediad i'r sesiwn gydag unrhyw oruchwyliaeth y maent yn dymuno.*

- ✓ PEIDIWCH byth a recordio unrhyw sesiwn rhithiol na phostio lluniau o unrhyw un dan 18 oni bai bod gennych ganiatâd penodol. (h.y. defnyddio protocolau ffotograffau arferol)
- ✓ Defnyddiwch egwyddorion diogelu data a rheolau GDPR gydag unrhyw ddata/manylion cyswllt.

2. Paratoad ofalus ac asesiad risg

- ✓ *Asesu risg:* dylid [cynnal asesiad risg](#) priodol o unrhyw weithgaredd gyda phlant a phobl ifanc, felly mae'n bwysig i i asesu'r cyfarfod rhithiol yn yr un modd. Nodwch y risgiau a champau rydych yn cymryd i leddfu neu reoli'r risg.
- ✓ *Dilynwch ganllawiau oedran:* Dydy'r rhan fwyaf o gwmnïau cyfrngau cymdeithasol ddim yn caniatáu i blant o dan 13 oed cael cyfrif. (Gweler Tabl A isod) ac efallai na fydd rhai rhieni'n caniatáu i'w plant gael mynediad iddynt ar yr oed yna chwaith. Mae angen i'r holl ddulliau cyfathrebu a ddefnyddir fod yn dryloyw ac yn ddiogel a gyda chaniatâd rhieni.
- ✓ *Dewiswch y Platfform* yn ofalus e.e. sicrhau cyfathrebu diogel, grŵp lle l pobl ond yn ymuno gyda chaniatâd y gweinyddwr. Osgowch ddefnyddio Skype/Facetime - fel cyfrngau cymdeithasol maent yn rhannu manylion cyswllt gyda'r holl ddefnyddwyr, a gallwch gysylltu pobl ifanc gydag eraill fel canlyniad anfwriadol. Yn hytrach, defnyddiwch blatfform fideo-gynadleda fel Zoom. Peidiwch â defnyddio "Houseparty" gan nad yw'n llwyfan diogel ac nid yw'n bosibl rheoli mynychwyr na Snapchat oherwydd mae'r negeseuon yn diflannu ac yn gwneud atebolrwydd yn anodd.

3. Recriwtio / gweithwyr ar eu pennau eu hunain

- ✓ *Recriwtio:* fel unrhyw weithgareddau gyda phlant a phobl ifanc, dylem sicrhau bod y rhai sy'n ymwneud â'r gwaith wedi'u recriwtio'n ddiogel a bod gwiriad DBS lle bo'n gymwys. Dylid sicrhau hyfforddiant priodol, gan gynnwys hyfforddiant diogelu. Dylai unrhyw arweinydd sy'n defnyddio cynnwys cyfrngau cymdeithasol yn yr eglwys fod yn hyderus wrth ei ddefnyddio ac yn ymwybodol o'r risgiau.
- × *Peidiwch â gweithio ar eich pen eich hun:* dylai dau arweinydd dros 18 fod yn bresennol yn y grŵp rhithiol o ddechrau'r alwad (yn gyntaf i ymuno, yr olaf i adael).

Cyfrngau Cymdeithasol a Phlatfformau Rhithiol

Canllawiau Diogelu ar gyfer gwaith ieuencid

4. Arferion Diogel

- ✓ *Adrodd am bryderon.* Byddwch yn glir gyda phobl ifanc os ydyn nhw'n rhannu rhywbeth ar gyfrngau cymdeithasol sy'n eich gwneud yn bryderus amdany'n nhw neu rywun arall, bydd rhaid i chi ymateb, yn unol â pholisi diogelu'r eglwys.
- ✓ *Cod ymddygiad a rheolau sylfaenol:* dylid dilyn ymddygiad priodol ar gyfer arweinwyr a phobl ifanc fel y byddech yn ei ddisgwyl yn y lleoliad grŵp ieuencid arferol.
- ✓ *Cynnal y ffiniau:* Ni ddylid arweinwyr defnyddio eu cyfrif cyfrngau cymdeithasol personol ond yn hytrach gosodwch gyfrif ar gyfer y grŵp ieuencid. Peidiwch â defnyddio cyfrngau cymdeithasol i gyfathrebu â phobl ifanc unigol. Cynnwys rhieni yn y cyfathrebu.
- ✓ *Modelu defnydd cyfrngau cymdeithasol iach a chyfrifol:* Peidiwch â phostio neu ymateb i negeseuon yn hwyr yn y nos.
- ✓ *Gweithgareddau neu wasanaethau eglwys/pob oed:* Dylech bob amser ystyried egwyddorion cydsyniad a GDPR o ran delweddau a chyfeiriadau e-bost ar gyfer cyfranogwyr o bob oed. Os bydd unrhyw ddigwyddiadau/gwasanaethau yn cael eu lanlwytho neu dangos ar-lein, sicrhewch fod pawb yn ymwybodol ac nad ydych, yn anfwriadol, yn cyhoeddi delweddau o blant neu unrhyw un heb eu caniatâd.

TABL A

PLATFFORM	OED IEUENGAF
FACEBOOK	13
INSTAGRAM	13
TIKTOK	13
TWITTER	13
WHATSAPP	16
GOOGLE HANGOUTS	13
SNAP CHAT	Peidiwch â defnyddio ap lle mae negeseuon yn diflannu gan nad oes atebolrwydd na gwarchodaeth
HOUSE PARTY	Dim yn blatfform diogel oherwydd ddim yn bosibl i reoli mynychwyr

LINCIAU DEFNYDDIOL

Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus Adran 3 a 3.3A and D

http://www.paneldiogelwch.org.uk/images/5_Adran_3.pdf

Ewch i dudalen diogelwch ar lein ar wefan y Panel <https://www.paneldiogelwch.org.uk/cy/diogelwch-ar-y-we> am fwy o wybodaeth a linciau

Youthscape and 31:8 Creating safer places online. Canllawiau ar gyfer cyfathrebu a gweithio'n ddiogel gyda phobl ifanc ar-lein. 03/2020 https://thirtyoneeight.org/media/2588/guidanc-for-online-youth-work_v3.pdf
<https://www.youthscape.co.uk/podcast/virtual-youth-work>

Thinkuknow <https://www.thinkuknow.co.uk/> adnodd sydd â chynngor i blant, rhieni a gweithwyr am gadw'n ddiogel yn y byd ar-lein;

Childnet International <https://www.childnet.com/> adnoddau gan gynnwys pecyn cymorth i rieni a gofalwyr;

Mae'r panel yn cydnabod yn ddiolchgar y defnydd o'r adnoddau ar-lein a gynhyrchwyd gan Eglwys yn Lloegr a'r Baptists Together wrth baratoi'r daflen hon.

https://www.baptist.org.uk/Articles/569876/BUGB_Guide_to.aspx

<https://www.churchofengland.org/sites/default/files/2020-04/Video%20Calling.pdf>

Medi 2020

ASESIAD RISG ENGHREIFFTIOL ZOOM YOUTH MEETINGS

Asesiad risg enghreifftiol					
GWEITHGARWCH I'W ASESU/SY'N PERI PRYDER: Cyfarfod Ieuenctid dros ZOOM					
RISG sy'n Gysylltiedig â'r Gweithgaredd	Risg/ niwed i bwy a sut	MESURAU RHEOLI	gan bwy a phryd	cwblhawyd X/✓	Lefel o risg nawr
<p>Materion diogelwch/preifatrwydd yn ymwneud â defnyddio meddalwedd Zoom. Person heb wahoddiad/anhysbys yn cael mynediad i'r cyfarfod</p> <p>Defnyddio ID cyfarfod personol i gynnal digwyddiadau cyhoeddus Recordio sesiynau heb awdurdod (Mae gan Zoom gyfleuster Recordio)</p>	<p>Plant a phobl ifanc/ mynychwyr/arweinwyr Hwyluso mynediad 3ydd parti at bobl ifanc yn anfwriadol Mae hyn yn creu cyfarfod di-dor – gall unrhyw un gael mynediad. Mynychwyr yn recordio'r cyfarfod heb ganiatâd</p>	<ul style="list-style-type: none"> Arweinydd i drefnu hyfforddiant Zoom ar-lein er mwyn dod yn fwy ymwybodol o gyfleusterau, nodweddion a pheryglon posibl yr adnodd Peidiwch ag cyhoeddi cysylltiadau- dyddiad, amser, a linc ar gyfer y cyfarfod ar y cyfryngau cymdeithasol neu mewn fforymau cyhoeddus (rhannwch yn ddiogel.) Rhieni a mynychwyr yn cael eu rhybuddio i beidio â throsglwyddo manylion cyswllt i eraill. Rhaid i bartïon eraill sy â diddordeb gael eu cyfeirio at yr arweinydd. Yr arweinydd i lunio rhestr o fynychwyr cyn cyfarfod a gwirio ar ddechrau pob cyfarfod. Rhaid datrys unrhyw anghysondeb cyn y gall y cyfarfod symud ymlaen. Dim caniatâd i recordio data. Sicrhewch fod yr holl gyfranogwyr yn ymwybodol na ddylai unrhyw un recordio'r sesiwn. 	<p>Arweinydd/ trefnydd cyn y cyfarfod ac yn barhaus</p>		Isel
<p>Risg o gysylltiad/ "grooming" amhriodol ar-lein neu gyhuddiadau o hyn</p>	<p>Plant a phobl ifanc/ mynychwyr/arweinwyr Defnydd amhriodol o Zoom neu gyswllt ar lwyfannau electronig eraill</p> <p>Camddefnyddio cyfleuster negeseuon preifat/sgwrsio yn ystod cyfarfod</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae'n rhaid bod dau arweinydd dros 18 yn bresennol ac yn weladwy yn y sesiwn bob amser. Os oes angen i arweinydd adael yn gynnar dylai'r sesiwn cyfan orffen. Arweinwyr wedi cael recriwtio yn ddiogel gyda gwiriadau DBS. Arweinwyr wedi derbyn hyfforddion ar gyfer eu rôl a hyfforddiant diogelu. (Mae hyfforddiant diogelu pobl ifanc ychwanegol ar-lein yn ddymunol) Cyfarfodydd grŵp yn unig yn hytrach na 1:1. Dim ymuno cyn i'r gweinydd (host). Bydd pawb yn deall bod sesiwn 1:1 gyda rai dan 18 wedi'i wahardd. Sicrhewch fod rhannu sgrin yn cael ei gyfyngu i'r host yn unig. Mae CHAT wedi'i ddiffodd cyn i'r cyfarfod ddechrau Rhaid i arweinwyr gwblhau cwrs diogelu a bod yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn pe bai plentyn yn gwneud datgeliad. 	<p>Arweinydd/ trefnydd cyn y cyfarfod ac yn barhaus</p>		isel

ASESIAD RISG ENGHREIFFTIOL **ZOOM YOUTH MEETINGS**

<p>Diffyg caniatâd rieni / presenoldeb rieni</p>	<p>Honiadau o gyswilt amhriodol â phlant Atebolrwydd gwael</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Rhannwch fanylion y cyfarfod gan gynnwys pwrpas/arweinwyr a rheolau sylfaenol gyda'r rhieni/gwarcheidwaid cyn y cyfarfod a chael caniatâd e-bost. • Cynghorwch fod oedolyn yn bresennol yn yr ystafell gyda'r plentyn ar ddechrau'r sesiwn ac yn ddelfrydol yn ystod y sesiwn 	<p>Arweinydd/ trefnydd cyn y cyfarfod</p>		
<p>Rhannu gwybodaeth bersonol/manyion cyswilt yn amhriodol gan roi mynediad yn anfwriadol at wybodaeth bersonol .</p> <p>Dillad neu leoliad anaddas ar gyfer cyfarfod</p>	<p>Rhannu gwybodaeth bersonol ar lafar, drwy negeseuon neu drwy fanylion sydd i'w gweld yng nghefnidir y camera. Defnyddio Facebook i fewngofnodi mynediad at wybodaeth bersonol. Cymryd rhan mewn cyfarfod tra'n gwisgo dillad amhriodol neu mewn lleoliad amhriodol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • cyngori yn erbyn gor-rannu gwybodaeth bersonol h.y. cyfeiriadau ac ati. Dylai oedolion sicrhau eu bod mewn lle niwtral heb wybodaeth bersonol yn dangos a sganio sgrin ar y cyfle cyntaf er mwyn nodi unrhyw gefndir amhriodol/sensitif ac ati gan fynychwyr • Rhieni i sicrhau bod y cefndir yn rhydd o eitemau personol fel lluniau teuluol, dolenni cyfeiriad ac ati. • Rhieni i sicrhau eu bod wedi gosod y cyfrif Zoom drwy eu cyfeiriad e-bost nid Facebook. Mewngofnodi gyda chyfeiriad e-bost. • Canllawiau clir i bawb ar wisgo dillad addas a lleoliad addas ar gyfer gyfarfod 	<p>Arweinydd/ trefnydd Rieni / gofawyr</p>		<p>isel</p>
<p>Cwblhawyd gan: JE gellir eu haddasu ar gyfer lleoliad lleol</p>		<p>Dyddiad Mehefin 2020</p>			